

Y Rhai sy'n Gofalu

Darllen: Luc 10:36–37

Wrth i ni addoli yma heddiw, meddyliwch am y bobl hynny sy'n gofalu am eraill: y gŵr neu'r wraig sy'n gofalu am gymar ar yr aelwyd; y nyrs yn y cartref neu'r ysbyty; y meddyg yn y syrjeri; y fam yn gofalu am ei babi bach; yr athrawes yn gofalu am ei dosbarth o blant mewn Ysgol Sul. Ydi, mae'r gofal yn fawr.

Yn Efengyl Marc 2:1–11) ceir cyfeiriad at ddigwyddiad yng Nghapernaum lle'r oedd y tŷ yn llawn am fod Iesu wedi cyrraedd yno. Roedd yr aelwyd erbyn hyn yn orlawn. A phan gyrhaeddodd pedwarawd gyda'u ffrind a oedd wedi ei barlysu, nid oedd modd iddyn nhw fynd yn agos at Iesu. Ac felly, dyma fynd ati i agor to'r tŷ, a thorri trwodd a gollwng y claf, a oedd yn gorwedd ar ei fatras, i lawr at draed Iesu. Chaiff yr un o'r ffrindiau, na'r claf ei hun o ran hynny, eu henwi, ond hebddynt, ni fyddai'r truan hwn wedi'i wella. Meddyliwch am funud am eu dyfalbarhad - cario'r claf ar ei fatras; llafurio i ddringo i ben y to; dad-doi'r tŷ; a gollwng y claf i lawr yn ofalus at draed Iesu. Hebddynt, ni fyddai gennym stori na gwrth o gwbl! Mae cyfeillgarwch ffrindiau'n un o roddion pennaf bywyd.

Sut ffrind ydych chi? Meddyliwch am un o'ch ffrindiau sydd o bosibl angen eich cwmni a'ch cynhaliaeth yn awr am ei fod yn unig, neu'n wael, neu'n galaru o golli un o'i anwyliaid. Beth allwch ei wneud? Yn gyntaf, beth am gyflwyno'r ffrind i ofal Duw gan ofyn i Dduw ei gynnal, ei gysuro a dod â thangnefedd iddo? Yna, beth am weithredu'n uniongyrchol? Os yn bosibl, beth am fynd draw i'w weld? Ond os yw'r daith yn rhy bell, beth am ddefnyddio'r holl ffyrdd sydd gennym o gyfathrebu heddiw? Codi'r ffôn am sgwrs, anfon neges destun, neu e-bost. Os nad ydych yn gyfarwydd â'r dulliau modern, beth am anfon llythyr i ddweud eich bod yn meddwl amdano? Os ydych am alw heibio, beth am fynd ag anrheg gyda chi, i ddangos bod y ffrind yn bwysig i chi a'ch bod chi'n meddwl amdano ac yn gwerthfawrogi'r cyfeillgarwch? Beth am fynd gam

ymhellach? Os ydi o'n hen neu'n fethedig, ewch ag ef i siopa, neu gwnewch bryd o fwyd iddo. Neu, arhoswch am ysbaid i sgwrsio a chadw cwmpeini, a gwrando! Mae rhai pobl yn awyddus iawn i rannu profiadau neu'n chwilio am gyfle i rannu problem sydd wedi peri poen a gofid iddyn nhw ers blynyddoedd. Cofiwch fod gweinidogaeth gwrando yn bwysig iawn.

Mae yna un peth bach arall i'w gofio; a dyma'r rhan anoddaf mewn gwirionedd. Beth am y bobl hynny o'n cwmpas nad ydyn nhw'n ffrindiau i ni ond yn gymdogion nad ydyn nhw o bosib erioed wedi torri gair â ni. Os ydyn nhw mewn angen, yna maen nhw angen ein cyfeillgarwch a'n gofal ni. Mae Duw yn ein galw i fod yn gymdogion da, cariadus a gofalus, yn arbennig i'r rhai sydd wir angen ein help. Cofiwch mai Samariad – gelyn – a roddodd gymorth a chysur i'r gŵr oedd wedi syrthio i blith y lladron.

Myfyrdod pellach:

Pa mor barod ydych chi i fynd yr ail filltir er mwyn eich ffrind?

Beth am y rhai nad ydych yn eu hadnabod yn dda? A beth am helpu gelyn?